						dadansoddiad o safbwynt dylunio trefol yn ystyried y profiad hwn, gan ystyried mynediadau neu byrth, y cymeriad a'r ymdeimlad o le gwahanol mewn gwahanol rannau o'r pentref a rhwyddineb deall a llywio'r lle, fel yr hyn sy'n diffinio canol y pentref, ac yn y blaen. d. Dylai datblygiadau neu waith cyhoeddus yn y dyfodol atgyfnerthu'r cymeriad gwerthfawr penodol mewn rhannau penodol o'r pentref a dylai canllawiau dylunio cysylltiedig sy'n seiliedig ar leoedd lywio sut y dylai'r cymeriad esblygu a gwella dros amser. e. Fel enghraifft bwysig, byddwn wedi hoffi gweld y ffordd i'r pentref yn cael ei hamlygu, sy'n wael iawn ar hyn o bryd, ac nid oes ganddo hyd yn oed olygfa allweddol wedi'i nodi (nes i chi gyrraedd yr ardal gadwraeth gaeedig). Mae'r argraff gyntaf yn bwysig ond ar hyn o bryd mae'r adeilad cyntaf, fel y gwelwch yn syth cyn mynd i mewn i'r ardal gadwraeth, yn weithdy bach gwael iawn ac wedi dadfeilio.	fe'u trafodir ar lefel strategol briodol yn unig. Nodir hefyd yr arsylwadau ynghylch symudiad trwy'r pentref, gan gynnwys pyrth, pwyntiau cyrraedd, gwahanol ardaloedd cymeriad, ac eglurder. Mae'r ystyriaethau hyn unwaith eto'n ymestyn y tu hwnt i bwrpas a lefel manylder y Gwerthuso a byddai'n cael eu harchwilio'n fwy priodol trwy fentrau creu lleoedd neu fentrau dan arweiniad dylunio ar wahân. Cydnabyddir dylanwad yr A55 a'r amgylchedd priffyrdd cyfagos ar y ffordd i'r pentref. Fodd bynnag, mae'r ardal hon y tu allan i'r Ardal Gadwraeth, ac ni fyddai ei chynnwys o fewn y ffin ddynodedig yn gyfiawn. Mae'r Cynllun Asesu a Rheoli presennol yn darparu sail briodol ar gyfer ystyried lleoliad y pentref a chyfleoedd i'w gwella. Ni ystyrir bod nodi golygfa allweddol benodol yn y lleoliad hwn yn briodol nac yn angenrheidiol gan fod y materion a godwyd yn ymwneud â lleoliad ehangach y pentref ac ansawdd cyffredinol y ffordd i'r pentref yn hytrach nag un	

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						Mae'r sefyllfa hon wedi parhau ers blynyddoedd lawer, ac o olwg yr asesiad ardal gadwraeth, nid yw wedi'i hamlygu fel blaenoriaeth i wneud unrhyw beth yn ei chylch. Mae cylch troi bysiau mawr hefyd yn dominyddu'r ardal yn syth cyn i'r ardal gadwraeth ddechrau ac ychydig iawn o gydnabyddiaeth sydd yn y dull o ddylunio priffyrdd am fod hwn yn bentref gwledig o werth amwynder a hanesyddol uchel, er gwaethaf ei fod yn lleoliad neu'n borth i'r pentref.	olygfa ddiffiniedig. Felly, ni chynigir unrhyw newidiadau i'r Gwerthusiad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth mewn ymateb i'r sylw hwn.	

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
007	001		Dolgellau			Siomedig nad oes unrhyw hysbysiad nac ymgysylltiad blaenorol wedi digwydd gyda'r gymuned leol cyn yr ymgynghoriad hwn. Roedd hwn yn gamgymeriad barn mawr o ystyried ystod a dyfnder y wybodaeth leol a'r diddordeb mewn gwarchod treftadaeth Dolgellau ymhlith ei thrigolion.	Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus lle gofynnodd yr Awdurdod am gael ei wahodd i gyfarfodydd y Cynghorau Tref a Chymuned priodol i drafod y prosiect, y cynnwys, ac unrhyw faterion a chyfleoedd yn ystod gaeaf 2021. Yn dilyn y dadansoddiad arbenigol, mae'r cynlluniau drafft sy'n destun yr ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol hwn yn rhoi'r cyfle i ymgysylltu ymhellach â'r cymunedau lleol a'r rhai y byddai'r Asesiadau Ardal Gadwraeth a'r Cynlluniau Rheoli yn effeithio arnynt, a/neu'r rhai sydd â diddordeb yn y Prosiect Ardaloedd Cadwraeth, a chael adborth ganddynt. Bwriad y prosiect yw llunio asesiadau a chynlluniau rheoli cadarn a phriodol a fyddai'n gwarchod ac yn gwella'r ardaloedd cadwraeth mewn modd cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae mewnbwn y cymunedau, y trigolion a'r busnesau lleol yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn.	Dim newidiadau wedi'u cynnig.

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
007	002		Dolgellau			Mewn egwyddor, mae amcanion, fformat ac ystyriaethau manwl a heriau'r Cynllun Rheoli drafft y mae'r ddogfen yn eu hamlygu yn cael eu croesawu a'u cefnogi. Er y cytunir bod rhinweddau unigol treftadaeth adeiledig Dolgellau yn bwysig, eu gwerth cyfunol sydd bwysicaf. O'r holl drefi yn y Parc Cenedlaethol, mae gan Ddolgellau rinweddau a gwerthoedd treftadaeth adeiledig mwy nag unrhyw anheddiad arall yn y Parc. Felly, dylai'r Cynllun gydnabod Dolgellau fel y prif anheddiad lle mae Rhinweddau Arbennig treftadaeth adeiledig a diwylliannol y Parc yn fwyaf amlwg.	Nodwyd; fodd bynnag, nid mater i'r Prosiect Ardaloedd Cadwraeth yw hwn, ond yn hytrach i Gynllun Rheoli Eryri mewn perthynas â Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol.	Dim newidiadau wedi'u cynnig.
007	003		Dolgellau			Yn ogystal, er bod y Cynllun drafft yn disgrifio nodweddion ac asedau'r Ardal Gadwraeth yn briodol ac yn ofalus, os yw ei gasgliadau a'i argymhellion i ddiogelu cyfanrwydd a dilysrwydd yr agweddau hynny ar dreftadaeth y dref sy'n ei gwneud mor bwysig, rhaid i ystod cynigion terfynol y Cynllun fod yn ehangach, yn gynhwysol ac yn fwy uchelgeisiol. Yn benodol, dylid rhoi mwy o ystyriaeth i	Wedi nodi, ac ar ôl adolygu, cytunwyd i gynnwys testun ychwanegol ynghylch defnyddio a rheoli sgwariau'r dref o dan adran 4.3.2 o Gynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Dolgellau.	I'w gynnwys o dan 4.3.2 o'r Cynllun Rheoli: *Gwella rôl sgwariau hanesyddol ac arwyddocaol tref Dolgellau fel mannau agored croesawgar, hygyrch ac sy'n canolbwyntio ar bobl; mannau sy'n cefnogi bywyd cymunedol, gwerthfawrogiad o'r amgylchedd hanesyddol a bywiogrwydd canol y dref. Annog defnyddiau priodol a gwelliannau sensitif i'r parth cyhoeddus, gan gynnwys rhesymoli parcio cerbydau lle byddai hynny'n diogelu cymeriad*

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						adfer ac ailddefnyddio ystod sgwariau pwysig y dref fel mannau agored a mannau cyfarfod croesawgar. Mewn llawer o achosion, mae eu hunaniaeth wedi'i pheryglu gan ddefnyddiau amhriodol a thriniaeth diystyriol. Dylai'r Cynllun gynnwys argymhellion mwy penodol i adfer ac adfywio unigoliaeth y mannau hyn o fewn tirweddau strydoedd y dref sydd wedi'u hadfywio.		*ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth yn well, yn gwella diogelwch a hygyrchedd i gerddwyr, ac yn cefnogi amcanion ehangach datgarboneiddio.*
007	004		Dolgellau			Yn yr un modd, mae angen dull strategol, cynhwysfawr a mwy radical o glirio traffig y dref a chyflwyno awyrgylch mwy cyfeillgar i gerddwyr mewn mannau cyfarfod mawr, strydoedd llai poblogaidd a ffyrdd cul. Dylid ategu hyn gan gynigion i adfer arwyneb palmant traddodiadol a dodrefn stryd. Byddai cynlluniau o'r fath nid yn unig yn ategu'r gwaith adfer rhagorol a wneir drwy'r cynllun Treftadaeth Treflun, ond uno ac atgyfnerthu hunaniaeth dreftadaeth nodedig y dref a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o ymdeimlad unigryw o le Dolgellau.	Nodwyd; fodd bynnag, mae hyn y tu hwnt i gwmpas y Prosiect Ardaloedd Cadwraeth ac yn fater i'w ystyried o fewn Cynllun Rheoli Eryri mewn perthynas â Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol. Felly, ni ystyrir ei bod yn briodol ymhelaethu ymhellach.	Dim newidiadau wedi'u cynnig.

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
007	005		Dolgellau			Mae'r Cynllun yn nodi Asedau Heb eu Dynodi o Ddiddordeb Lleol Arbennig ond nid yw'n glir sut mae'r rhain yn berthnasol i'r adeiladau sydd wedi'u cynnwys ar Gofrestr Adeiladau Traddodiadol yr Awdurdod, ac felly, eu perthnasedd yng nghyd-destun rheoli'r ardal Gadwraeth a'i lleoliad ehangach. Mae'n bwysig bod y Cynllun yn egluro'r berthynas hon.	Mae'r Gofrestr Leol yn cael ei diwygio ar hyn o bryd a bydd yr Asedau Heb eu Dynodi o Ddiddordeb Lleol Arbennig a nodwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn. Fodd bynnag, at ddibenion eglurhad, efallai y cynigir cynnwys gwybodaeth ynghylch y Gofrestr Adeiladau Traddodiadol.	O fewn pob Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth unigol, o dan adran 6.0 Asedau Hanesyddol, cynigiwyd fel a ganlyn: *6.3 Dylid ystyried hefyd Gofrestr Adeiladau Traddodiadol yr Awdurdod. Gan fod y rhestr hon yn cael ei hadolygu'n gyson, ni fyddai'n ymarferol ei chynnwys yn yr Asesiad Ardal Gadwraeth hwn. Cysylltwch â'r Awdurdod os oes gennych ymholiadau ynghylch y gofrestr.'*
007	006		Dolgellau			Yn yr un modd, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Cynllun yn diffinio "lleoliad" Ardal Gadwraeth Dolgellau, h.y. parth clustogi effeithiol, ac yn awgrymu'r dulliau polisi a'r mesurau a fydd yn gweithredu yn yr ardal hon. Yn gysylltiedig â hyn mae mater golygfeydd allweddol. Byddai'n ymddangos yn synhwyrol ymestyn yr egwyddor hon i ardaloedd y tu allan i'r ardal Gadwraeth, gan mai dyma'r lleoedd lle mae newid o fewn yr Ardal Gadwraeth yn aml yn weladwy ac yn amlwg.	Mae golygfeydd allweddol wedi'u nodi yn y Cynllun Asesu a Rheoli ar gyfer pob Ardal Gadwraeth, ac felly, byddant yn cael eu hystyried wrth asesu pob cynnig datblygu unigol o fewn y broses gynllunio lle bo'n briodol. Felly, ni ystyrir bod parth clustogi'n briodol nac yn angenrheidiol wrth sicrhau cadwraeth a gwella'r Ardaloedd Cadwraeth.	Dim newidiadau wedi'u cynnig.

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
007	007		Dolgellau			Er bod estyniad bach i ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth yn cael ei awgrymu, mae'n siomedig nad oes adolygiad ehangach o'r ffin wedi'i gynnal. Mae mannau agored gwyrdd mawr sylweddol ar lan yr afon, gan gynnwys Maes Pentref Marian Mawr, ardaloedd chwarae, a'r parc presennol, yn asedau hanesyddol pwysig ac yn darparu lleoliad unigryw i'r amgylchedd adeiledig a chymeriad y dref. Dylid rhoi ystyriaeth bellach i'w cynnwys o fewn ffin yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn wedi'i gyfiawnhau'n llawn ynddo'i hun a hefyd fel ffordd o sefydlu "cyswllt seilwaith gwyrdd" yn rhesymegol rhwng Ardal Gadwraeth tref Dolgellau a'i lloeren fach ym Mhandy'r Odyn.	Mae golwg ehangach wedi'i chynnal fel rhan o'r broses asesu ac mae wedi arwain at ganfyddiadau'r estyniad arfaethedig presennol. Dyfernir gwarchodaeth i'r mannau agored gwyrdd o dan y dynodiad a byddai eu cynnwys fel rhan o'r dynodiad Ardal Gadwraeth yn cael ei ystyried yn feichus ac yn ddiangen. Yn ogystal, ni fyddai'n briodol cynnwys y safleoedd hyn o dan y meini prawf ar gyfer dynodi ardal gadwraeth gwarchodaeth hanesyddol a threftadaeth.	Dim newidiadau wedi'u cynnig.
007	008		Dolgellau			O ystyried agosrwydd ardaloedd eraill o bwysigrwydd cadwraeth natur gerllaw ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth, dylid ymestyn yr egwyddor hon i ystyried sut y gellid cynnwys ardaloedd ac asedau naturiol pwysig eraill o fewn y ffin. Os yw'r cynllun terfynol am adlewyrchu egwyddorion cynaliadwyedd a lles, rhaid iddo gynnwys a cheisio	Mae golwg ehangach wedi'i chynnal fel rhan o'r broses asesu ac mae wedi arwain at ganfyddiadau'r cynllun ffin, yr asesiad a'r cynllun rheoli arfaethedig presennol. Fodd bynnag, gellir cyflwyno rhagor o wybodaeth a chyfiawnhad i'r Awdurdod i gefnogi'r gynrychiolaeth hon.	Dim newidiadau wedi'u cynnig

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						gwarchod holl asedau treftadaeth pwysig y dref, boed yn adeiledig, diwylliannol a naturiol, neu'n ddiriaethol a chysylltiol.		
007	009		Dolgellau			Felly, dylid ailasesu'r ffin bresennol i gadarnhau a yw'r ffin bresennol yn adlewyrchu'n realistig wir faint yr holl ardaloedd hynny o berthnasedd a phwysigrwydd treftadaeth.	Mae adolygiad llawn wedi'i gynnal gan arwain at yr estyniad arfaethedig i Ffin yr Ardal Gadwraeth bresennol, gan gyfeirio at baragraff 1.2.1 o Gynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth Dolgellau, *'Mae maint yr ardal astudio wedi'i ddiffinio'n rhannol gan ffin yr Ardal Gadwraeth (gweler Ffig 02), ond, cynhwyswyd yr ardaloedd uniongyrchol (gan gynnwys yr ardaloedd tirwedd cyfagos) er mwyn deall y cyd-destun ehangach a phenderfynu a fyddai unrhyw newidiadau i'r ffin yn briodol.'* Felly ni chynhigiwyd unrhyw newid o ganlyniad i'r gynrychiolaeth hon.	Dim newidiadau wedi'u cynnig

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
008	001	Treftadaeth Dolgellau	Dolgellau a Phandy'r Odyn			Cefnogi	Nodwyd.	Dim newidiadau wedi'u cynnig.
008	002	Treftadaeth Dolgellau	Dolgellau a Phandy'r Odyn			Yn siomedig, o ystyried rôl a buddsoddiad amser ac ymdrech ar ran Treftadaeth Dolgellau dros nifer o flynyddoedd wrth ddiogelu a hyrwyddo treftadaeth y dref, na wnaed unrhyw gysylltiad â ni, nac yn wir â'r gymuned gyfan. Rhoddir pwyslais sylweddol drwy gydol y dogfennau hyn ar bwysigrwydd ymgysylltu â chymunedau, ond roedd yr unig ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ystod paratoi'r adroddiadau wedi'i gyfyngu'n llwyr i Swyddog Treftadaeth Treflun yr Awdurdod ei hun - chwaraewr allweddol, ond nid yr unig un. Roedd y penderfyniad i beidio â gwahodd pobl a sefydliadau lleol yn agored i drafod a chymryd rhan yn y gwaith o baratoi'r datganiad hwn yn hepgoriad anffodus o ystyried dyfnder y wybodaeth bensaernïol a threftadaeth o fewn ein Cymdeithas yn ogystal ag yn y gymuned gyfan. Mae'n anodd deall sut y gellir asesu 'gwerth	Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus lle gofynnodd yr Awdurdod am gael ei wahodd i gyfarfodydd y Cynghorau Tref a Chymuned priodol i drafod y prosiect, y cynnwys, ac unrhyw faterion a chyfleoedd yn ystod gaeaf 2021. Yn dilyn y dadansoddiad arbenigol, rhoddodd y cynlluniau drafft a oedd yn destun yr ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol hwn y cyfle i ymgysylltu ymhellach â'r cymunedau lleol a'r rhai y byddai'r Asesiadau Ardal Gadwraeth a'r Cynlluniau Rheoli yn effeithio arnynt, a/neu'r rhai sydd â diddordeb yn y Prosiect Ardaloedd Cadwraeth, a chael mewnbwn ganddynt. Bwriad y prosiect yw llunio asesiadau a chynlluniau rheoli cadarn a phriodol a fyddai'n gwarchod ac yn gwella'r ardaloedd cadwraeth mewn modd cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae mewnbwn y	Dim newidiadau wedi'u cynnig.

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						cymunedol' (un o bedwar gwerth treftadaeth allweddol Cadw) heb ymgynghori â'r gymuned leol mewn ffordd ystyrlon. Gobeithir, pan fydd yr Awdurdod wedi cynhyrchu CCA drafft ar yr amgylchedd hanesyddol, y bydd yn ymgynghori â ni mewn da bryd. Rydym yn cynnig y sylwadau canlynol yn y gobaith y byddant yn ychwanegu gwerth pellach at y ddogfen a byddwn yn gallu cymryd rhan weithredol yn ei mireinio a'i gweithredu ymhellach.	cymunedau, y trigolion a'r busnesau lleol yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn.	
008	003	Treftadaeth Dolgellau	Dolgellau a Phandy'r Odyn			Byddai'n ddefnyddiol pe bai datganiad wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon a'r 12 arall, yn egluro statws penodol y Cynllun Rheoli terfynol a'i argymhellion. Er enghraifft, a oes gan bob un o'r Cynlluniau Ardal Gadwraeth statws ynddo'i hun neu a fyddant yn ffurfio Canllawiau Cynllunio Atodol i Gynllun Datblygu Lleol Eryri presennol a'i brosesau Rheoli Datblygu cysylltiedig, neu fel ychwanegiad at y Cynllun Rheoli Parc presennol? Os yw'r ymarfer hwn yn rhan o gynllun meistr mwy cynhwysfawr ar gyfer cyfanrwydd y dref hanesyddol yn ei lleoliad ehangach, yna dylid gwneud	Mae gan ddynodiad Ardal Gadwraeth statws 'ystyriaeth gynllunio berthnasol' o fewn y broses gynllunio. Unwaith y bydd y Cynlluniau hyn wedi'u mabwysiadu gan yr Awdurdod, byddant hefyd yn derbyn statws 'ystyriaeth gynllunio berthnasol' sy'n debyg i ganllaw cynllunio atodol. Bydd hyn yn cael ei egluro pan fydd y dogfennau'n cael eu mabwysiadu.	Dim newidiadau wedi'u cynnig.

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						hyn yn glir. Byddai eglurder ar y mater hwn yn ddefnyddiol. Byddem yn croesawu cynllun uchelgeisiol sy'n cymryd ymagwedd gyfannol at werthoedd hanesyddol, diwylliannol a naturiol y dref ac yn cydbwyso'r rhain ag anghenion presennol y gymuned, trwy ymgynghori, cydweithredu a chyd-reoli gyda'r gwahanol randdeiliaid. Mae angen hyrwyddwr treftadaeth ar Ddolgellau. Mae'r dadansoddiad cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau a'r argymhellion sy'n deillio o hyn yn ymddangos i ni yn gadarn ac yn gyson ag arferion da cyfredol ac egwyddorion cadwraeth (Adran 3). Rydym yn eu cymeradwyo'n fras i gyd. Mae'r paragraffau canlynol yn nodi lle rydym yn teimlo bod ystyriaeth a mireinio pellach yn ddymunol.		

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
008	004	Treftadaeth Dolgellau	Dolgellau a Phandy'r Odyn			Yn gyffredinol, mae Treftadaeth Dolgellau yn cefnogi amcanion y Cynllun Gwerthuso a Rheoli drafft. Mae'r ddogfen yn adeiladu ar ddogfen ragorol Cadw, Dolgellau: Deall Cymeriad Trefol (2009), ac yn rhoi pwyslais dyledus i rinweddau penodol treftadaeth adeiledig y dref nid yn unig o ran arwyddocâd pensaernïol adeiladau unigol, ond yn bwysicach fyth, i'w phwysigrwydd cyfunol cynhenid. Gan fod pwysigrwydd cronnus ffurf, adeiladau, cymeriad cyffredinol a lleoliad y dref mewn sawl ffordd yn fwy na gwerth pob un o'i rhannau unigol, teimlwn fod ffocws y cynlluniau ar yr ardaloedd cadwraeth yn rhy gyfyngol. Cydnabyddir hyn yn ymhlyg ac yn benodol mewn gwahanol bwyntiau yng nghynllun Dolgellau, er enghraifft ar dudalen 20 lle mae'r ardaloedd cymeriad yn ymestyn y tu hwnt i ffin bresennol yr ardal gadwraeth. Mae'r map (t. 19) sy'n dangos golygfeydd allweddol, er ei fod yn werthfawr ynddo'i hun, yn rhy gyfyngol o ystyried pwysigrwydd lleoliad y dref gyfan wrth godre'r	Mae'r polisïau ynghylch strategaeth a datblygiadau penodol wedi'u nodi yn y Cynllun Datblygu Lleol a'r Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol. Ni fyddai'n briodol mynd i fanylion o'r fath yng Nghynllun Gwerthuso a Rheoli'r Ardaloedd Cadwraeth. Mae esboniad o bwrpas a methodoleg yr asesiad hwn, ynghyd â chyflwyniad cyffredinol i'r hanes, y dirwedd, adeiladau a ffurfiau aneddiadau a'r cyd-destun cynllunio a deddfwriaethol, gan gynnwys canllawiau ar ba ddatblygiad sy'n cael ei reoli a ble mae angen caniatâd wedi'u cynnwys yn y ddogfen Cyflwyniad i Ardaloedd Cadwraeth ar gyfer yr 21ain Ganrif fel y nodir ym mharagraff 1.1.1 o ddogfen y Cynllun Gwerthuso a Rheoli. Mabwysiadwyd dull cyson gyda phob Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth unigol. Os ystyriwyd y dylid cynnwys adeiladau neu elfennau penodol o werth hanesyddol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ddogfen ar hyn o bryd, yna dylid cynnig y wybodaeth a'r cyfiawnhad hwn i'r	Dim newidiadau wedi'u cynnig.

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						mynyddoedd - golygfa sydd wedi denu ymwelwyr a thrigolion ers diwedd y ddeunawfed ganrif. Er nad ydym yn cynnig ymestyn yr ardaloedd cadwraeth i gynnwys yr ardal drefol gyfan a'i chefnwlad – sydd wedi'r cyfan yn gyfan gwbl o fewn Parc Cenedlaethol – rydym yn teimlo bod angen sylw arbennig wrth gynllunio tai newydd yn sensitif (er enghraifft o amgylch Wenallt a Phen-y-Cefn) a diogelu coed a choetiroedd ar gyrion y dref, sy'n gwneud cyfraniad mor fawr at gymeriad Dolgellau. Yn olaf, mae golygfeydd ac asedau hanesyddol sylweddol heb eu dynodi o ddiddordeb arbennig yn bodoli ledled y dref, nid yn unig o fewn yr ardaloedd cadwraeth, ac mae angen mynd i'r afael â diogelu a gwella'r rhain fel rhan o'r cynllun gwerthuso a rheoli hwn. Yn fyr, rydym yn teimlo, os yw casgliadau'r cynllun a'r argymhellion dilynol i atgyfnerthu a gwella cyfanrwydd a dilysrwydd treftadaeth y dref yn wirioneddol, tra ar yr un pryd yn hyrwyddo eu defnydd cynaliadwy, bod yn rhaid i ystod ei gynigion fod yn fwy	Awdurdod i'w cynnwys yn y ddogfen.	

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						eang, cynhwysol ac uchelgeisiol.		
008	005	Treftadaeth Dolgellau	Dolgellau a Phandy'r Odyn			Yn gryno, er bod y Cynlluniau Asesu a Rheoli yn nodi'r ddau fath o olygfannau a derbynyddion allweddol o fewn yr Ardaloedd Cadwraeth, rydym yn awgrymu y dylid ymestyn yr egwyddor hon i nodi lleoliadau a golygfannau ymhell y tu hwnt i ffiniau'r Ardal Gadwraeth, gan mai dyma'r lleoedd lle mae newidiadau i ffurf a chymeriad adeiladau yng nghanol y dref yn aml yn	Mae golygfeydd allweddol wedi'u nodi yn y Cynllun Asesu a Rheoli ar gyfer pob Ardal Gadwraeth, ac felly, byddant yn cael eu hystyried wrth asesu pob cynnig datblygu unigol o fewn y broses gynllunio lle bo'n briodol.	Dim newidiadau wedi'u cynnig.

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						weladwy ac yn amlwg ac o bosibl yn niweidiol. Yn yr un modd, gall newidiadau i amgylchoedd ehangach y dref (y tu allan i'r ardaloedd cadwraeth) effeithio ar gymeriad canol y dref ei hun ac ar olygfeydd o'r tu allan (megis o Marian Mawr a Ffordd y Bala).		
008	006	Treftadaeth Dolgellau	Dolgellau a Phandy'r Odyn			Yn dilyn ymlaen o'r uchod, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Cynllun Gwerthuso a Chadwraeth yn diffinio "lleoliad" Ardal Gadwraeth Dolgellau, h.y., diffiniad parth clustogi effeithiol ynghyd ag awgrymiadau ynghylch y set o ddulliau polisi a mesurau a ddylai fod yn berthnasol i'r ardal ehangach hon a gweithredu ynddi. Er bod estyniad arwynebol bach i'r de o ffin bresennol Ardal Gadwraeth Dolgellau yn cael ei awgrymu, ychydig o ystyriaeth a roddwyd i gyfreithlondeb gwirioneddol y ffin bresennol o ystyried ei bod wedi'i dynodi bron i 50 mlynedd yn ôl. Rydym yn argymell cynnal adolygiad o ffin yr ardal gadwraeth i gadarnhau a yw'n dal i adlewyrchu'r meini prawf cyfredol yn realistig. Gyda'r golwg hon, rydym hefyd yn awgrymu y gallai'r Cynllun ystyried a ellid sefydlu	Mae golygfeydd allweddol wedi'u nodi yn y Cynllun Asesu a Rheoli ar gyfer pob Ardal Gadwraeth, ac felly, byddant yn cael eu hystyried wrth asesu pob cynnig datblygu unigol o fewn y broses gynllunio lle bo'n briodol. Felly, ni ystyrir bod parth clustogi'n briodol nac yn angenrheidiol wrth sicrhau cadwraeth a gwella'r Ardaloedd Cadwraeth.	Dim newidiadau wedi'u cynnig.

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						cyswllt neu goridor mwy synhwyrol rhwng y ddwy Ardal Gadwraeth. (Mae potensial i sefydlu coridor gwyrdd i gerddwyr rhyngddynt.)		
008	007	Treftadaeth Dolgellau	Dolgellau a Phandy'r Odyn			Gwerth sgwariau Dolgellau Un amcan allweddol ddylai fod ailsefydlu ymarferoldeb sgwariau pwysig y dref fel mannau agored a mannau cyfarfod croesawgar. Mae'r rhain yn hanfodol i gyfluniad y dref ond teimlwn fod eu hunaniaeth mewn llawer o achosion wedi'i pheryglu'n anffodus gan ddefnyddiau amhriodol a thriniaeth di-hid. Felly, credwn y dylai'r Cynllun gynnwys argymhellion mwy penodol i adfer ac adfywio unigoliaeth y mannau hyn o fewn strydoedd y dref.	Wedi nodi, ac ar ôl adolygu, cytunwyd i gynnwys testun ychwanegol ynghylch defnyddio a rheoli sgwariau'r dref o dan adran 4.3.2 o Gynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Dolgellau.	I'w gynnwys o dan 4.3.2 o'r Cynllun Rheoli: *Gwella rôl sgwariau hanesyddol ac arwyddocaol tref Dolgellau fel mannau agored croesawgar, hygyrch ac sy'n canolbwyntio ar bobl; mannau sy'n cefnogi bywyd cymunedol, gwerthfawrogiad o'r amgylchedd hanesyddol a bywiogrwydd canol y dref. Annog defnyddiau priodol a gwelliannau sensitif i'r parth cyhoeddus, gan gynnwys rhesymoli parcio cerbydau lle byddai hynny'n diogelu cymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth yn well, yn gwella diogelwch a hygyrchedd i gerddwyr, ac yn cefnogi amcanion ehangach datgarboneiddio.*

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
008	008	Treftadaeth Dolgellau	Dolgellau a Phandy'r Odyn			Traffig yn y dref Rydym yn deall pwysigrwydd cydbwyso diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol â chynnal a gwella bywyd economaidd a hyfywedd y dref. Ni ellir eithrio traffig a thrafnidiaeth gyhoeddus yn llwyr o'r dref, ond rhaid ei rheoli, mater sydd wedi cael ei fynd i'r afael ag ef sawl gwaith ond heb ei ddatrys erioed. Mae'r Cynlluniau Asesu a Rheoli yn nodi parcio fel problem benodol ac mae angen mynd ati'n gynhwysfawr - ac mewn ymgynghoriad agos â thrigolion a pherchnogion busnesau. Mae angen dull radical i ryddhau traffig y dref (neu ei leihau) a chyflwyno mesurau i flaenoriaethu cerddwyr o fannau ffocws mawr yn ogystal â'r strydoedd cul, y tramwyfeydd a'r lonydd cefn nad ydynt yn hanfodol i lif y traffig. Dylid ailasesu rhai o'r pethau hwylus a gyflwynwyd yn ystod cyfnod Covid, megis cau strydoedd a lleihau lleoedd parcio. Yn y ddau achos (rheoli traffig a blaenoriaethu cerddwyr) dylid cynnwys cynigion ar gyfer briffiau dylunio yn y Cynllun. Dylid ymchwilio i	Mae adolygiad llawn wedi'i gynnal gan arwain at yr estyniad arfaethedig i Ffin yr Ardal Gadwraeth bresennol, gan gyfeirio at baragraff 1.2.1 o Gynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth Dolgellau, *'Mae maint yr ardal astudio wedi'i ddiffinio'n rhannol gan ffin yr Ardal Gadwraeth (gweler Ffig 02), ond, cynhwyswyd yr amgylchoedd uniongyrchol (gan gynnwys yr ardaloedd tirwedd cyfagos) er mwyn deall y cyd-destun ehangach a phenderfynu a fyddai unrhyw welliannau i'r ffin yn briodol.'* Felly, ni chynhigir unrhyw newid o ganlyniad i'r gynrychiolaeth hon.	Dim newidiadau wedi'u cynnig

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						gynllun penodol i greu awyrgylch di-geir (neu o leiaf un i leihau mynediad i gerbydau), yn enwedig yn Sgwâr Eldon. Gan ei gynllunio'n ddychmygus, gallai hyn wella apêl yr ardal fel man cyfarfod cymdeithasol ac adfywio statws economaidd yr adeiladau a blaenau'r siopau. Ymddengys i ni mai dim ond drwy fabwysiadu dull newydd o ran llif traffig a pharcio y bydd cyflawniadau Menter Treftadaeth Treflun yn cael eu gwireddu'n llawn. Hebddo, bydd y gwaith adfer rhagorol sydd wedi digwydd yn cael ei erydu'n raddol ac ni fydd gwerth economaidd llawn y cyllid Treflun yn cael ei wireddu.		

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
008	009	Treftadaeth Dolgellau	Dolgellau a Phandy'r Odyn			Mae'r ddau gynllun (Dolgellau a Phandy'r Odyn) yn sôn am bwysigrwydd coed, llwyni coediog a mannau gwyrdd (4.3, 8.3 a 9.1) ac mae hyn i'w groesawu. Fodd bynnag, fel mewn mannau eraill, mae cyfyngu'r sylw i'r ardaloedd cadwraeth yn lleihau effaith yr argymhellion cadarnhaol a wneir. Mae'n hanfodol mabwysiadu dull llawer mwy cyfannol o reoli coed a mannau gwyrdd (mewn partneriaeth â pherchnogion) dros ardal lawer ehangach er mwyn cynnal a gwella cymeriad cyffredinol y dref a'i lleoliad. Mae Pandy'r Odyn mewn safle canolog rhwng y coetiroedd hynafol i'r gorllewin a'r de a'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n ymestyn ar hyd glan ddeheuol Afon Wnion, ar y naill law, a Marion Mawr i'r dwyrain - yr ardal werdd fwyaf yn y dref (ond nid oes dim ohoni o fewn yr ardal gadwraeth) ar y llaw arall. Dylai'r coetir i'r gogledd (gan gynnwys Wenallt a Choed Pen-y-Cefn a'r tiroedd dirywiedig ond pwysig o amgylch Llwyn) yn ogystal â'r un o amgylch Frongoch (y mae'r ddogfen yn ei grybwyll) ffurfio rhan o	Nodwyd y sylwadau. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y cyfraniad pwysig y mae coed, coetiroedd, mannau gwyrdd a'r lleoliad tirwedd ehangach yn ei wneud i gymeriad ac arwyddocâd Dolgellau a Phandy'r Odyn. Ystyriodd y broses asesu leoliad ehangach yr Ardaloedd Cadwraeth er mwyn deall eu cyd-destun a'u harwyddocâd. Fodd bynnag, pwrpas y Cynlluniau Gwerthuso a Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yw asesu a rheoli diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig yr Ardaloedd Cadwraeth dynodedig. Mae'r tirweddau, y coetiroedd a'r mannau agored ehangach y cyfeirir atynt eisoes yn cael eu gwarchod trwy bolisïau cynllunio a dynodiadau amgylcheddol presennol, gan gynnwys dynodiadau Mannau Agored, Gorchmynion Cadw Coed, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac amddiffyniadau amgylcheddol naturiol a hanesyddol eraill. Mae'r Awdurdod felly o'r farn bod yr Arfarniadau a'r Cynlluniau Rheoli yn darparu fframwaith priodol ar gyfer	Dim newidiadau wedi'u cynnig.

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						unrhyw gynllun cadwraeth ar gyfer y dref. Felly hefyd y dylai'r nifer o erddi a'r ardaloedd pori agored o fewn rhan ddeheuol ardal gadwraeth y dref ynghyd â lleoliadau deiliog y nifer o filâu ar wahân o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg o fewn ac y tu allan i'r ardaloedd cadwraeth. Roeddem yn teimlo bod rhesymeg y Cynllun Gwerthuso a Rheoli yn symud i'r cyfeiriad hwn ond ei fod wedi'i lesteirio gan friff rhy gyfyngol.	gwarchod a gwella cymeriad yr Ardaloedd Cadwraeth, tra bo'n fwy priodol ymdrin â rheoli'r dirwedd ehangach drwy fecanweithiau polisi cynllunio ac amgylcheddol eraill.	
008	010	Treftadaeth Dolgellau	Dolgellau a Phandy'r Odyn			Mae cynllun y dref, neu'n hytrach y modd anffurfiol y datblygodd o ddiwedd yr Oesoedd Canol ymlaen, dan ddylanwad ffurf y caeau gynt a ffiniau eiddo, yn dra gwahanol i gynllunio ffurfiol trefi fel y Bala a Harlech. Mae'n etifeddiaeth unigryw ac mae wedi goroesi'n dda. Yr un mor bwysig, fodd bynnag, yw'r manylion sydd, gyda'i gilydd, yn helpu i greu cymeriad arbennig Dolgellau. Mae'r arfarniad cadwraeth yn nodi'r rhain mewn modd defnyddiol. Cydnabyddir yn gyffredinol fod Dolgellau yn 'dref garreg' drawiadol ac, yn ffodus, cymharol anghyffredin yw rendro modern dros	Nodwyd a chroesawyd y sylwadau. Mae'r asesiad yn cydnabod pwysigrwydd treflun hanesyddol Dolgellau, gan gynnwys ei ddeunyddiau adeiladu traddodiadol, manylion pensaernïol a thriniaethau arwyneb hanesyddol, sydd gyda'i gilydd yn cyfrannu at gymeriad ac arwyddocâd arbennig yr ardal. Mae'r Awdurdod yn cytuno bod llawer o'r nodweddion hyn yn agored i newid cynyddrannol ac yn ystyried y byddai'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 arfaethedig yn darparu mecanwaith ychwanegol pwysig i helpu i'w diogelu. Mae'r Cynllun Gwerthuso a Rheoli yn ceisio nodi a chodi	Dim newidiadau wedi'u cynnig. Mae'r gynrychiolaeth yn cefnogi canfyddiadau ac argymhellion y Cynllun Asesu a Rheoli.

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						arwynebau waliau cerrig. Yn fwy agored i niwed mae nodweddion ffenestri (yn enwedig ffenestri codi cynnar a ffenestri bae o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg), blaenau siopau cynnar, amgylchynau drysau, nwyddau dŵr glaw, corn simneiau a photiau simneiau, a thoeau llechi, ynghyd â thriniaethau arwyneb hanesyddol megis cerrig crynion a waliau terfyn. Bu cryn erydu ar y nodweddion hyn ers cyhoeddi *Dolgellau: Deall Cymeriad Trefol*, ond mae llawer ohonynt yn dal i fodoli, ac rydym yn cefnogi'n gryf yr argymhelliad i'w diogelu'n well drwy roi Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar waith. Ar hyn o bryd, i bob pwrpas, nid oes unrhyw warchodaeth i fanylion hanesyddol o'r fath ar adeiladau domestig nad ydynt yn rhestredig.	ymwybyddiaeth o'r nodweddion hyn, a thrwy hynny gefnogi eu cadwraeth a'u gwella trwy benderfyniadau rheoli a chynllunio yn y dyfodol o fewn yr Ardal Gadwraeth.	
008	011	Treftadaeth Dolgellau	Dolgellau a Phandy'r Odyn			Adeiladau rhestredig. Cyfeirir yn aml at Ddolgellau fel un o'r trefi sydd â'r crynodiad uchaf o adeiladau rhestredig yng Nghymru. Os felly, mae hynny'n gwbl gyfiawn, ac rydym yn cefnogi'r cynigion (6.1.2 (Dolgellau) a 6.1.3 (Pandy'r Odyn)) i gyflwyno wyth adeilad i Cadw i'w hystyried ar gyfer eu rhestru.	Nodwyd y sylwadau a chroesawir y gefnogaeth i'r ychwanegiadau arfaethedig at y rhestr o adeiladau a argymhellir ar gyfer eu rhestru'n statudol. Mae dynodi adeiladau rhestredig yn fater i Cadw, yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru, ac	Dim newidiadau wedi'u cynnig. Mae'r materion a godwyd yn ymwneud yn bennaf â'r broses restru statudol a weinyddir gan Cadw.

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						Fodd bynnag, er bod y rhestr bresennol yn weddol gynhwysfawr, braidd yn brin yw'r disgrifiadau o'r tu mewn: mewn sawl achos, nid yw nodweddion o ddiddordeb (e.e. grisiau o'r ddeunawfed ganrif neu leoedd tân cynnar) yn cael eu nodi, neu cânt eu cofnodi ar sail tystiolaeth ail-law. Dros amser, daw rhagor o nodweddion i'r amlwg. Nid ydym yn argymell ceisio cynnal arolwg rhestru cynhwysfawr newydd o'r dref, ond credwn ei bod yn bwysig codi ymwybyddiaeth y cyhoedd fod y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â rhestru yn berthnasol i'r tu mewn yn ogystal â'r tu allan i adeiladau rhestredig.	felly, mae'n dilyn y prosesau statudol a'r meini prawf asesu a sefydlwyd gan y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Cenedlaethol. Bydd yr Awdurdod yn anfon unrhyw wybodaeth berthnasol a nodwyd trwy'r broses Asesu Ardal Gadwraeth ymlaen i Cadw ei hystyried lle bo'n briodol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y sylwadaeth nad yw nodweddion hanesyddol mewnol pwysig bob amser yn cael eu hadlewyrchu'n llawn o fewn disgrifiadau rhestr statudol. Fodd bynnag, nid yw graddfa'r amddiffyniad a roddir i adeilad rhestredig wedi'i gyfyngu i'r nodweddion a ddisgrifir yn benodol yn y cofnod rhestr a gall gynnwys tu mewn a thu allan yr adeilad, ynghyd ag unrhyw strwythurau cwrtil gwarchodedig.	

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
008	012	Treftadaeth Dolgellau	Dolgellau a Phandy'r Odyn			Asedau treftadaeth heb eu dynodi. Rydym yn synnu ac yn pryderu, er bod cyfeiriad yn cael ei wneud at Gofrestr Adeiladau Traddodiadol gyfredol yr Awdurdod, nad oes dim pellach yn cael ei ddweud am ei phwysigrwydd yng nghyd-destun rheoli'r ardal Gadwraeth ac asedau hanesyddol arwyddocaol y tu allan i ffin yr ardal gadwraeth. Mae'r rhestr o asedau heb eu dynodi a'r map cysylltiedig wedi'u cyfyngu i'r ardaloedd cadwraeth (Dolgellau 6.2 a'r map ar t. 42; Pandy'r Odyn 6.2 a'r map ar t. 26). Nid yw'n glir sut mae'r Asedau Heb eu Dynodi o Ddiddordeb Lleol Arbennig a nodwyd yn y Cynllun yn berthnasol i'r adeiladau sydd wedi'u cynnwys ar Gofrestr Adeiladau Traddodiadol yr Awdurdod. Ymddengys bod gwahanol fersiynau ac mae eglurhad o'r berthynas hon yn hanfodol. Mae angen eglurhad hefyd arnom o statws y rhestr o asedau heb eu dynodi. Anogir awdurdodau cynllunio i lunio a chynnal rhestrau o'r fath ond rydym wedi dysgu'r ffordd galed nad oes llawer o bwysau i restr heb	Mae'r Gofrestr Leol yn cael ei diwygio ar hyn o bryd a bydd yr Asedau Heb eu Dynodi o Ddiddordeb Lleol Arbennig a nodwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn. Fodd bynnag, at ddibenion eglurhad, efallai y cynigir cynnwys gwybodaeth ynghylch y Gofrestr Adeiladau Traddodiadol.	O fewn pob Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth unigol, o dan adran 6.0 Asedau Hanesyddol, cynigiwyd fel a ganlyn: *6.3 Dylid ystyried hefyd Gofrestr Adeiladau Traddodiadol yr Awdurdod. Gan fod y rhestr hon yn cael ei hadolygu'n gyson, ni fyddai'n ymarferol ei chynnwys yn yr Asesiad Ardal Gadwraeth hwn. Cysylltwch â'r Awdurdod os oes gennych ymholiadau ynghylch y gofrestr.'*

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						gyfiawnhau cynnwys adeilad. Nododd datganiadau diweddar mewn adroddiad apêl Arolygydd Cynllunio yn ymwneud â dymchwel Ysgol y Babandod ar Ffordd Arran fod y methiant hwn i gyfiawnhau cofnodion ar restr leol yr Awdurdod yn ei gwneud hi'n amhosibl iddo ystyried cynnwys yr ysgol ar y rhestr honno'n llawn. Arweiniodd hyn at wrthdroi penderfyniad yr Awdurdod.		
008	012	Treftadaeth Dolgellau	Dolgellau a Phandy'r Odyn			Gyda hyn mewn golwg, rydym yn teimlo'n gryf y dylid diwygio'r Cynllun Asesu a Rheoli drafft i gynnwys argymhelliad: (a) i egluro rôl a statws y Gofrestr hon o asedau heb eu dynodi yng nghyd-destun cyfrifoldebau'r Awdurdod dros reoli newid a phenderfynu ar geisiadau Cynllunio, o ystyried y polisïau sy'n gysylltiedig ag adeiladau traddodiadol sy'n bodoli yn y fersiwn gyfredol o CDLl Eryri, a:	Mae'r Gofrestr Leol yn cael ei diwygio ar hyn o bryd a bydd yr Asedau Heb eu Dynodi o Ddiddordeb Lleol Arbennig a nodwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn. Fodd bynnag, at ddibenion eglurhad, efallai y cynigir cynnwys gwybodaeth ynghylch y Gofrestr Adeiladau Traddodiadol.	O fewn pob Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth unigol, o dan adran 6.0 Asedau Hanesyddol, cynigir fel a ganlyn: *6.3 Dylid ystyried hefyd Gofrestr Adeiladau Traddodiadol yr Awdurdod. Gan fod y rhestr hon yn cael ei hadolygu'n gyson, ni fyddai'n ymarferol ei chynnwys yn yr Asesiad Ardal Gadwraeth hwn. Cysylltwch â'r Awdurdod os oes gennych ymholiadau ynghylch y gofrestr.*

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
008	012	Treftadaeth Dolgellau	Dolgellau a Phandy'r Odyn			(b) adolygu a diweddaru'r rhestr o asedau heb eu dynodi. Byddai angen i adolygiad o'r fath ddisgrifio'r ased ac egluro'r meini prawf ar gyfer ei gynnwys ar y rhestr. Byddai Treftadaeth Dolgellau yn hapus i gynorthwyo yn yr ymarfer hwn gan fod gennym yr arbenigedd a'r wybodaeth leol angenrheidiol. Byddai hyn yn tynnu rhywfaint o'r pwysau oddi ar y staff cynllunio.	Mae'r Gofrestr Leol yn cael ei diwygio ar hyn o bryd a bydd yr Asedau Heb eu Dynodi o Ddiddordeb Lleol Arbennig a nodwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn. Fodd bynnag, at ddibenion eglurhad, efallai y cynigir cynnwys gwybodaeth ynghylch y Gofrestr Adeiladau Traddodiadol.	O fewn pob Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth unigol, o dan adran 6.0 Asedau Hanesyddol, cynigir fel a ganlyn: *6.3 Dylid ystyried hefyd Gofrestr Adeiladau Traddodiadol yr Awdurdod. Gan fod y rhestr hon yn cael ei hadolygu'n gyson, ni fyddai'n ymarferol ei chynnwys yn yr Asesiad Ardal Gadwraeth hwn. Cysylltwch â'r Awdurdod os oes gennych ymholiadau ynghylch y gofrestr.*

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
008	012	Treftadaeth Dolgellau	Dolgellau a Phandy'r Odyn			• Mae Treftadaeth Dolgellau yn cefnogi amcanion y Cynllun Gwerthuso a Rheoli drafft • Rydym yn difaru'r methiant i ymgynghori â Threftadaeth Dolgellau a'r gymuned ehangach mewn unrhyw ffordd ystyrlon • Byddem yn croesawu cynllun meistr sy'n cymryd ymagwedd gyfannol at werthoedd hanesyddol, diwylliannol a naturiol y dref ac yn cydbwyso'r rhain ag anghenion presennol y gymuned • Rydym yn croesawu'r dadansoddiad cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau a'r argymhellion sy'n deillio o hyn fel rhai cadarn ac yn gyson ag arferion da a egwyddorion cadwraeth cyfredol • Rydym yn croesawu'r cynnig i roi Cyfarwyddiadau Erthygl 4 ar waith i ddiogelu nodweddion a deunyddiau traddodiadol o fewn y ddwy ardal gadwraeth • Rydym yn annog yr Awdurdod i egluro statws y rhestr o asedau hanesyddol heb eu dynodi (a elwir hefyd yn Gofrestr Adeiladau Traddodiadol). Mae angen adolygu'r rhestr hon a darparu cyfiawnhad dros	Mae'r Awdurdod yn croesawu'r gefnogaeth i amcanion cyffredinol y Cynllun Asesu a Rheoli. Mae'r Gofrestr Leol yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, a bydd Asedau Heb eu Dynodi o Ddiddordeb Lleol Arbennig a nodwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses hon. Efallai y bydd eglurhad ychwanegol ynghylch y Gofrestr Adeiladau Traddodiadol yn cael ei gynnwys yn y dogfennau terfynol. Mae adolygiad llawn o ffin yr Ardal Gadwraeth wedi'i gynnal, gan gynnwys ystyried y lleoliad ehangach a'r dirwedd gyfagos, gan arwain at yr estyniad arfaethedig i'r ffin. Felly, ni chynhigir unrhyw newidiadau pellach mewn ymateb i'r gynrychiolaeth hon. Mae'r Awdurdod o'r farn bod golygfeydd, mannau gwyrdd ac asedau hanesyddol y tu hwnt i'r Ardal Gadwraeth eisoes wedi'u diogelu trwy ddynodiadau a pholisïau cynllunio presennol. Mae golygfeydd allweddol wedi'u nodi yn y Cynllun Gwerthuso a Rheoli a byddant yn cael eu hystyried, lle bo'n	Dim newidiadau wedi'u cynnig, er y gellir cynnwys eglurhad ychwanegol ynghylch y Gofrestr Adeiladau Traddodiadol yn y ddogfen derfynol.

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						gynnwys adeiladau fel ei bod yn addas at y diben fel offeryn ar gyfer rheoli cadwraeth. • Byddem yn croesawu asesiad mwy trylwyr o ffiniau presennol yr ardaloedd cadwraeth. • Mae angen brys am gynllun integredig ar gyfer rheoli traffig a thrafnidiaeth gyhoeddus a darparu ardaloedd mwy diogel i gerddwyr. • Dylid rhoi mwy o sylw i adennill y sffêr gyhoeddus, yn enwedig y sgwariau anffurfiol nodedig yn y dref. • Er mwyn sicrhau rheolaeth gynaliadwy a sensitif o dreftadaeth hanesyddol a naturiol Dolgellau, dylid ymestyn cwmpas y cynllun cadwraeth y tu hwnt i gyfyngiadau'r ddwy ardal gadwraeth, yn enwedig o ran golygfeydd, mannau gwyrdd ac asedau heb eu dynodi. • Rydym yn annog yr Awdurdod i baratoi nodiadau canllaw ar gynnal a chadw ac atgyweirio arfer da o ddydd i ddydd. • Rydym hefyd yn annog yr Awdurdod i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd bod rheolaethau adeiladau rhestredig yn ymestyn i du	berthnasol, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae materion ehangach sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, parth cyhoeddus a strategaeth ddatblygu yn cael eu trafod trwy'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn hytrach na'r Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth. Darperir gwybodaeth am reolaethau Ardaloedd Cadwraeth, deddfwriaeth adeiladau rhestredig a rheoli datblygu drwy'r ddogfen ganllawiau gyffredinol *Cyflwyniad i Ardaloedd Cadwraeth ar gyfer yr 21ain Ganrif,* gan sicrhau dull cyson ar draws yr holl Asesiadau a Chynlluniau Rheoli. Mae'r Awdurdod yn nodi'r pryderon ynghylch ymgynghori. Cyn ymgynghori ffurfiol, ymgysylltwyd â Chynghorau Tref a Chymuned yn ystod gaeaf 2021. Rhoddodd yr ymgynghoriad cyhoeddus dilynol gyfle pellach i drigolion, busnesau a phartïon â diddordeb roi sylwadau ar y dogfennau drafft. Mae mewnbwn	

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						mewn yn ogystal â thu allan adeiladau rhestredig.	cymunedol yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r broses. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y Cynllun Asesu a Rheoli yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.	

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
008	013	Treftadaeth Dolgellau	Dolgellau a Phandy'r Odyn			I gloi, o ystyried gwybodaeth gyfunol Treftadaeth Dolgellau am bwysigrwydd pensaernïol a diwylliannol y dref, hyderwn y rhoddir ystyriaeth i rinweddau'r sylwadau a'r awgrymiadau hyn gyda'r bwriad o wella fersiwn derfynol y cynllun. Yn yr un modd, mae'r Gymdeithas yn parhau'n barod i drafod materion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr er mwyn mireinio cynnwys y cynllun ymhellach, a helpu i sicrhau ei fod yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r heriau sy'n wynebu'r gwaith o warchod a stiwardio treftadaeth ryfeddol Dolgellau, treftadaeth nad yw ei phwysigrwydd yn cael ei gydnabod ddigon ac sydd, yn anffodus, yn aml yn cael ei thanbrisio.	Nodwyd. Byddai'r Awdurdod yn croesawu cyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth benodol ynghylch unrhyw adeiladau, strwythurau neu nodweddion hanesyddol ychwanegol a ystyrir yn deilwng o'u cynnwys yn y dogfennau Asesu neu'r Gofrestr Leol, ynghyd â chyfiawnhad ategol, fel y gellir ystyried y rhain fel rhan o adolygiadau yn y dyfodol.	Dim newidiadau wedi'u cynnig.
009	001	Coedwigoedd Celtaidd				O'r 14 lleoliad a restrir yn yr ymgynghoriad, mae saith yn dod o fewn ardal ffocws Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru - sef Beddgelert, Abaty Cymer, Dolgellau, Harlech, Maentwrog, Nantmor, a Phandy'r Odyn. Mae'r prosiect yn credu y dylai unrhyw gynlluniau neu fentrau sy'n gweithredu yn yr ardaloedd hyn gynnwys camau gweithredu sy'n	Nodwyd y sylwadau. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r dynodiad amgylcheddol pwysig hwn, cynigir diwygio'r Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth perthnasol i gynnwys cyfeiriad at Brosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru. Nodir y sylwadau ehangach sy'n ymwneud â rheoli rhywogaethau goresgynnol, gofynion plannu, cyfleoedd	Diwygio'r dogfennau perthnasol i gynnwys cyfeiriad at Brosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru fel yr amlinellir isod: *Mae Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru yn weithredol o fewn sawl Ardal Gadwraeth, gan gynnwys ardaloedd sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, ac mae'n ceisio amddiffyn ac adfer cynefinoedd coetiroedd prin yr Iwerydd trwy reoli Rhododendron ponticum a rhywogaethau estron*

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						ymwneud ag amcan cyntaf ein prosiect o ran rheoli *Rhododendron ponticum* a rhywogaethau estron goresgynnol eraill. Yn anffodus, nodwn nad oes unrhyw sôn am rywogaethau estron goresgynnol yn y brif ddogfen ymgynghori, nac yn yr Asesiadau Ardal Gadwraeth a'r Cynlluniau Rheoli unigol. Yn ogystal â'r bygythiad amgylcheddol a achosir gan blanhigion estron goresgynnol, mae'r angen i'w rheoli yn creu cyfleoedd i uwchsgilio contractwyr lleol mewn meysydd gwaith perthnasol. Byddai'r sgiliau hyn nid yn unig yn berthnasol i reoli planhigion estron goresgynnol o fewn yr ardaloedd cadwraeth arfaethedig, ond hefyd i waith rheoli tir arall yn yr ardal ehangach. Rydym yn croesawu cynigion o fewn y cynlluniau perthnasol mewn perthynas â diogelu cynefinoedd presennol sydd o werth uchel i natur, gan gynnwys coed hynafol. Lle cynhelir cynlluniau plannu newydd, dylid defnyddio rhywogaethau newydd sy'n	hyfforddi contractwyr a rheoli cynefinoedd. Fodd bynnag, mae'r materion hyn y tu allan i gwmpas a phwrpas Cynlluniau Rheoli ac Asesu Ardaloedd Cadwraeth, sydd â'r bwriad o nodi ac asesu diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig Ardaloedd Cadwraeth a darparu fframwaith ar gyfer eu cadwraeth a'u gwella. Mae materion o'r fath yn cael eu trin yn fwy priodol drwy raglenni rheoli amgylcheddol, mentrau bioamrywiaeth a mecanweithiau polisi cynllunio eraill.	*goresgynnol eraill. Pan gynigir gwaith, cynlluniau plannu, tirlunio, cynnal a chadw neu ddatblygiad o fewn yr Ardaloedd Cadwraeth hyn, dylid ystyried bioddiogelwch, atal cyflwyno rhywogaethau goresgynnol newydd, a'r effaith bosibl ar gynefinoedd coedwigoedd glaw Celtaidd cyfagos. Dylid ceisio cyngor cynnar gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri lle gall cynigion effeithio ar ardaloedd sy'n gysylltiedig â'r prosiect neu gynnwys disodli rhywogaethau, clirio llystyfiant neu reoli cynefinoedd.* Dim newidiadau pellach wedi'u cynnig.

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						gydnaws â choetiroedd brodorol cyfagos ac sy'n ategu'r rhain. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau gwrychoedd.		
010	001	Saith	Betws-y-Coed			Hoffwn nodi strategaeth ar gyfer gwarchod a gwella'r Royal Oak, ynghyd ag adeiladau cwrtil fel y Stablau. Byddai'r dull hwn yn cynnwys: Cynnal ymchwil archifol hanesyddol i ddeall datblygiad hanesyddol y safle a'r ardaloedd cyfagos Cynnal dadansoddiad manwl o leoliad presennol yr adeilad gan gynnwys asesiad o olygfeydd allweddol, sefydlu cyfleoedd ar gyfer newidiadau yn y dyfodol i wella lleoliad Gwesty'r Royal Oak ac Eglwys Sant Mihangel sy'n adeilad rhestredig Gradd II*. Paratoi Datganiad Treftadaeth yn unol â Chanllawiau Cadw sy'n nodi'r Ddealltwriaeth o'r Ased Treftadaeth ar gyfer Gwesty'r Royal Oak, y Stablau, yr Eglwys Restredig Gradd II* gyfagos a'r Ardal Gadwraeth ehangach.	Nodwyd y sylwadau ac maent yn cefnogi dull sy'n cael ei arwain gan dreftadaeth ar gyfer cadwraeth a gwella Gwesty'r Royal Oak a'i leoliad ehangach yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae paratoi asesiadau treftadaeth manwl, cynlluniau meistr, astudiaethau safle-benodol a chynigion datblygu y tu allan i gwmpas a phwrpas y Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth. Mae'r Cynllun Gwerthuso a Rheoli yn darparu asesiad o gymeriad, ymddangosiad ac arwyddocâd yr Ardal Gadwraeth, gan gynnwys adeiladau, mannau a golygfeydd pwysig, ac yn sefydlu fframwaith ar gyfer ei chadwraeth a'i gwella. Byddai unrhyw gynigion yn y dyfodol ar gyfer safle Gwesty'r Royal Oak yn cael eu hystyried drwy'r prosesau cynllunio a chydsyniad adeiladau rhestredig priodol a byddai disgwyl iddynt gael	Dim newidiadau wedi'u cynnig. Mae'n fwy priodol mynd i'r afael â'r materion a godwyd drwy unrhyw gynigion safle-benodol yn y dyfodol ac asesiadau treftadaeth cysylltiedig.

ID Ymateb	ID Cynrychiolydd	Sefydliad	Dogfen	Rhif y Dudalen	Rhif Paragraff	Crynodeb Swyddog	Ymateb y Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						Sefydlu gwerth yr ased treftadaeth o ran gwerth tystiolaethol, hanesyddol, esthetig a chymunedol i ddeall ei arwyddocâd. Sefydlu cynllun meistr dan arweiniad treftadaeth ar gyfer y safle yn seiliedig ar yr ymchwil a'r dadansoddiad hanesyddol sy'n nodi lle gellir darparu ar gyfer newid yn y dyfodol o fewn y safle sy'n gwella lleoliad yr asedau treftadaeth. Sefydlu'r ardaloedd lle gellir gwneud gwelliannau y tu allan i ffin y safle i wella lleoliad yr asedau treftadaeth. Mewn cydweithrediad â Pharc Cenedlaethol Eryri, hoffem archwilio'r cyfyngiadau hyn yn fanylach.	eu cefnogi gan asesiadau treftadaeth cymesur yn unol â pholisi a chanllawiau cenedlaethol lle bo angen. Byddai'r Awdurdod yn croesawu ymgysylltiad parhaus â pherchnogion tir a rhanddeiliaid eraill ynghylch cadwraeth a gwella'r asedau treftadaeth pwysig hyn yn y dyfodol.	

ATODIAD 1 (b) Asesu'r effaith ar nodweddion cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol: Prosiect Ardaloedd Cadwraeth: Gwerthusiadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli

	Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd Gymdeithasol **Prosiect Ardaloedd Cadwraeth: Gwerthusiadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli**

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod (o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) ystyried yr effaith y mae unrhyw newid mewn polisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn newydd) yn ei gael ar bobl â nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan yr Awdurdod hefyd ddyletswydd gyffredinol i sicrhau tegwch a meithrin cysylltiadau da. Rhaid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn amserol cyn gwneud unrhyw benderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Awdurdod, o dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried effaith newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn newydd), yn ei chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn diogelu ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

O 1 Ebrill 2021, mae gan yr Awdurdod ddyletswydd i roi sylw dyledus i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

1) Manylion

1.1. Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Arfarniad o'r 14 Ardal Gadwraeth, a'r 14 Cynllun Rheoli Cadwraeth gydag argymhellion ar gyfer gweithredu o ran cynnal a chadw, atgyweirio ac ôl-osod effeithlonrwydd ynni.

1.2 Beth yw pwrpas y polisi / gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei ddiwygio? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Bydd y Gwerthusiadau'n diffinio'r hyn sy'n bwysig am yr ardaloedd ond hefyd, trwy ddadansoddi, yn dechrau adnabod ble mae materion, cyfleoedd, a ffactorau eraill yn codi. Bydd y Cynlluniau Rheoli dilynol yn darparu fframwaith i reoli'r Ardaloedd Cadwraeth yn effeithiol, gan wella a gwarchod eu cymeriad arbennig mewn ffordd gadarnhaol a rhagweithiol, a darparu arweiniad effeithiol i'r rhai sy'n byw, yn gweithio, yn buddsoddi yn yr ardaloedd ac yn eu rheoli.

Bwriad y prosiect hwn yw rhoi'r arfau angenrheidiol i gymunedau lleol yn ogystal â'r Awdurdod i warchod a datblygu'r Ardaloedd Cadwraeth ddynodedig yn gynaliadwy. Dylai:

- Galluogi datblygiad mwy priodol ac ynni-effeithlon;
- Darparu sylfaen ar gyfer cynlluniau grant a hyfforddiant yn y dyfodol a allai gynnwys darparu cymorth cyllid grant i gymunedau lleol wneud gwelliannau i'w cymunedau;
- Codi ymwybyddiaeth o dechnegau a deunyddiau adeiladu traddodiadol i gynorthwyo gyda gwaith atgyweirio a chynnal a chadw priodol ar gyfer adeiladau; a
- Codi ymwybyddiaeth o ddulliau priodol o wella perfformiad ynni adeiladau traddodiadol a hanesyddol.

1.3 Pwy sy’n gyfrifol am yr asesiad yma?

Swyddog Polisi Cynllunio

1.4 Pryd wnaethoch chi ddechrau'r asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Fersiwn 2. Paratowyd yr asesiad hwn fel rhan o'r sail tystiolaeth a chyfiawnhad sy'n gysylltiedig â'r cynnig, a ddechreuodd ym mis Medi 2021. Bydd yr asesiad terfynol yn rhan o becyn gwybodaeth a gyflwynir i’r Pwyllgor Cynllunio APC Eryri i gynorthwyo eu penderfyniad i gymeradwyo mabwysiadu y Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth a Chynlluniau Rheoli.

2) Gweithred

2.1 Pwy yw'r rhanddeiliaid neu'r partneriaid y mae angen i chi weithio gyda nhw i gynnal yr asesiad hwn?

Gallai’r bwriad gael effaith uniongyrchol ar bob eiddo preswyl a busnes/unigolyn sy’n edrych i fyw, gweithio ac ymweld â’r Ardaloedd Cadwraeth o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Eryri, gan ei fod yn rhoi arweiniad a chefnogaeth ar sut i warchod a gwella’r rhinweddau arbennig a nodir o fewn yr Ardaloedd Cadwraeth ddynodedig. Nid oes unrhyw fwriad i gyfyngu drwy'r prosiect hwn, yn hytrach y bwriad yw darparu cefnogaeth ac arweiniad ar sut i wneud newidiadau priodol a hyrwyddo'r Ardaloedd Cadwraeth. Mae’r dulliau canlynol wedi’u defnyddio i hysbysebu a chodi ymwybyddiaeth:- • Tudalen we benodol ar wefan yr Awdurdod Prosiect Ardaloedd Cadwraeth - Cynllunio a Datblygu (llyw.cymru) • Cyfryngau Cymdeithasol (Facebook) • Gohebu gyda’r rhai ar y Gronfa Ddata Cysylltiadau Polisi Cynllunio • Cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth a gweithdai gyda'r Cymunedau Lleol trwy gyfarfodydd gyda'r Cynghorau Cymuned perthnasol • Hysbysu’r Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos Drwy ymgymryd â’r broses ymgysylltu hon sy’n mynd y tu hwnt i’r gofyniad deddfwriaethol, y gobaith yw y bydd hyn yn sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol a phartïon â diddordeb yn ymwybodol o’r bwriad a’u cyfle i leisio’u barn drwy’r dulliau priodol.

2.2 Pa fesurau ydych chi wedi'u cymryd i ymgysylltu â phobl â nodweddion cydraddoldeb, ynghylch y Gymraeg neu â chymunedau (naill ai o le neu o angen) sy'n byw o dan anfantais economaidd-gymdeithasol?

Roedd y camau ymgysylltu a gymerwyd yn agored (proses ymgysylltu â'r cyhoedd) i bob unigolyn ymateb iddo. Defnyddiwyd y broses o godi ymwybyddiaeth y cyfeirir ati uchod (ymateb i gwestiwn 2.1) ynghyd â dull o gyflwyno sylwadau fel a ganlyn:-

- Holiadur wedi'i deilwra gan ddefnyddio meddalwedd ar-lein addas (Microsoft Forms)
- Holiadur papur (ar gais)
- Cyfle i ymateb trwy lythyr
- Cyfle i ymateb trwy e-bost
- Cyfle i drafod y cynnig gyda swyddogion perthnasol

Er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno sylwadau ar y cynnig bu modd (ar gais) derbyn copi o'r dogfennau cefndir mewn amrywiol ieithoedd a fformatau. Rhoddodd hyn yr hyblygrwydd a phob cyfle, yn enwedig i'r rhai â nodweddion gwarchodedig, i ymgysylltu â'r broses a chael mewnbwn iddi.

Ar y 7fed o Hydref 2021, anfonwyd gohebiaeth at yr holl Gynghorau Cymuned perthnasol yn eu hysbysu o'r prosiect ac yn gofyn am fynychu cyfarfod o'r Cyngor i'w hysbysu'n llawn o'r cynigion ac i gynnal gweithdy. Cynhaliwyd y gweithdai rhwng y 9fed o Dachwedd 2021 a'r 3ydd o Fawrth 2022 gyda'r holl Gynghorau Cymuned a ymatebodd i'r ohebiaeth.

Bu aelodau yn trafod fersiwn drafft o'r Gwerthusiadau a Chynlluniau Rheoli ar y 29ain o Fehefin 2022, cyn cael eu cymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar y 7fed o Fedi 2022.

Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn nodi'r angen i gynnal cyfnod ymgysylltu o leiaf 21 diwrnod o hyd. Er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd oedd ar gael i bobl leisio'u barn, cynhaliwyd cyfnod ymgynghori o 6 wythnos rhwng y 30ain o Fedi a'r 11eg o Dachwedd 2022.

Yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gofynnwyd cwestiynau penodol fel rhan o'r broses i alluogi ymhellach fesur ac asesu effaith y penderfyniad ar y Gymraeg. Ymhellach, yn unol ag arfer da, gofynnwyd cyfres o gwestiynau cydraddoldeb i werthuso a oedd trawstoriad da o bobl wedi ymateb.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Derbyniwyd cyfanswm o 72 o ymatebion unigol, sydd wedi'u nodi mewn Adroddiad Ymgynghori. Mae ymatebion swyddogion, ac os yw'n berthnasol, unrhyw newidiadau a gynigir i unrhyw un o'r Gwerthusiadau a Chynlluniau Rheoli yn dilyn derbyn yr ymatebion, wedi'u nodi yn yr Adroddiad. Ar gyfer cynigion neu awgrymiadau am newidiadau neu wybodaeth ychwanegol sydd heb eu gweithredu – mae ymateb y Swyddog yn cynnwys rheswm neu resymau.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n ei gweithredu?

Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer rheoli'r ardaloedd hyn yn gadarnhaol er mwyn sicrhau datblygiad priodol yn ogystal â chynaliadwy. Oherwydd materion yn ymwneud ag adnoddau, nid oes gwerthusiadau a chynlluniau ardal wedi'u cynhyrchu ar gyfer y 14 Ardal Gadwraeth ers eu dynodi, sy'n amrywio o 1971 i 1979.

Yn ogystal, mae'r agenda Newid i'r Hinsawdd bellach yn ystyriaeth ychwanegol sylweddol i'w hymgorffori yn y cynlluniau rheoli hyn. Mae hyn oherwydd bod mwyafrif y stoc yn yr ardaloedd hyn yn adeiladau traddodiadol sydd wedi'u hadnabod fel rhai nad ydynt yn defnyddio ynni'n effeithlon iawn. Gall hyn gael ei waethygu oherwydd y cyfyngiadau cynllunio ychwanegol ar bethau fel paneli solar, gwydr dwbl ac ati, a osodir ar Ardaloedd Cadwraeth.

Mae'r Amcanion Allweddol a Strwythur y Gwerthusiadau a'r Cynlluniau Rheoli wedi'u nodi yn yr Adroddiad Ymgynghori.

2.5 A oes unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei chasglu?

Rydym o'r farn bod y dystiolaeth a gasglwyd yn gadarn ac yn addas i'r diben. Cyn belled ag y bo modd, mae ymglymiad cymunedol wedi'i integreiddio i bob rhan o'r broses, i hybu dealltwriaeth o'r dynodiad, i gael gwybodaeth a mewnbwn lleol ac i sicrhau perchnogaeth gymunedol.

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Rhaid i'r Awdurdod roi sylw dyledus i'r effaith a gaiff unrhyw newidiadau ar bobl â'r nodweddion cydraddoldeb a nodir isod. Pa effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn y polisi neu wasanaeth yn ei chael ar bobl â'r nodweddion hyn?

Nodweddion	Pa fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil	**Niwtral**	Nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol a fyddai'n effeithio'n anghymesur ar unigolion neu grwpiau ar sail hil wedi'u hadnabod yn ystod yr asesiad hwn. Nid oes data ar gael ar berchnogion neu feddianwyr unigol penodol cartrefi ac eiddo o fewn yr Ardaloedd Cadwraeth wedi'u dadansoddi yn ôl grwpiau hiliol. Fodd bynnag, nid yw data cyffredinol ar gyfer pob un o'r cymunedau yn dangos poblogaeth fwy na'r cyfartaledd o boblogaethau Du a Lleiafrifoedd Ethnig. Gan fod y Cynlluniau Rheoli yn cyfeirio'n uniongyrchol at yr adeiladau a'r eiddo dros y tymor hwy, mae'n anochel y bydd perchnogion a deiliaid yn newid dros y cyfnod hwn. Er bod gan bob un o'r Ardaloedd

		Cadwraeth ei heriau a'i chyfleoedd ei hun (fel y nodir yn y dadansoddiad SWOT), nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd un grŵp hiliol penodol yn cael ei effeithio'n anghymesur dros grŵp arall, o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.
Anabledd	**Cadarnhaol**	Mae potensial ar gyfer buddion cadarnhaol i rai pobl anabl trwy weithredu'r Cynlluniau Rheoli. Ar gyfer rhai cyflyrau, mae data'n dangos bod gan rai pobl anabl filiau gwresogi uwch oherwydd y tymheredd uwch sydd ei angen dros fisoedd oerach y flwyddyn. Yn gyffredinol nid yw tai Ardal Gadwraeth yn ynni-effeithlon iawn, ac felly gall gwresogi'r tai hyn a chynnal tymheredd cyson gostio llawer mwy o gymharu ag adeilad newydd sy'n fwy ynni-effeithlon. Bydd rhai o'r atebion ôl-osod yn y Cynlluniau Rheoli yn cynyddu effeithlonrwydd ynni mewn rhai cartrefi Ardaloedd Cadwraeth ac yn gostwng biliau gwresogi, a fydd o fudd arbennig i'r bobl anabl y bydd hyn yn effeithio arnynt. Er y gall costau gwelliannau o'r fath fod allan o gyrraedd i rai, mae sawl cynllun grant cyffredinol ar gael. Mae bwriad hefyd y bydd y gwaith hwn yn darparu'r sylfaen ar gyfer cynlluniau grant yn y dyfodol drwy APC Eryri a phartneriaid eraill a allai gynnwys darparu cymorth grant i gymunedau lleol wneud gwelliannau.
Rhyw	**Niwtral**	Nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol a fyddai'n effeithio'n anghymesur ar unigolion neu grwpiau ar sail eu rhyw wedi'u nodi yn ystod yr asesiad hwn.
Oed	**Cadarnhaol**	Fel effaith anuniongyrchol, efallai y bydd manteision cadarnhaol i bobl iau a phobl o oedran gweithio drwy wella hyfforddiant penodol ar gyfer crefftwyr yn lleol ac uwchsgilio'r crefftwyr presennol y bydd y cynnig hwn yn arwain ato. Bydd datgarboneiddio cartrefi yn gofyn am sgiliau newydd ac ychwanegol ar gyfer contractwyr adeiladu, syrfewyr a gosodwyr gan nad yw technegau adeiladu modern yn aml yn briodol ar gyfer adeiladau traddodiadol a hanesyddol. Bydd hwn yn dod yn ddiwydiant pwysig a chynyddol yn y dyfodol agos. Bydd angen ystyriaethau ychwanegol a gwahanol ar gyfer tai traddodiadol ac adeiladau rhestredig, a fydd yn cynnwys yr hyfforddiant a ddaw yn ei sgil. Mae Adra Cyf wedi nodi yn eu hymateb i'r ymgynghoriad y byddent yn hapus i edrych ar weithio mewn partneriaeth â'r awdurdod i adnabod bylchau

		sgiliau a defnyddio'r Arfarniadau a Chynlluniau Rheoli i ddod o hyd i arian grant i gefnogi cymunedau lleol. Mae Adra a phartneriaid allweddol eraill eisoes wedi datblygu canolbwynt datgarboneiddio ym Mhenygroes i hyfforddi pobl leol yn y sgiliau sydd eu hangen. Bydd hyn yn darparu gyrfaoedd medrus â chyflog da i bobl ifanc a hefyd yn datblygu sgiliau pobl o oedran gweithio yn y maes hwn. Yn ei dro bydd hyn yn rhoi hwb i'r economi leol ac yn helpu pobl i aros yn eu cymunedau drwy sicrhau cyflogaeth sy'n talu'n dda.
Cyfeiriadedd rhywiol	**Niwtral**	Nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol a fyddai'n effeithio'n anghymesur ar unigolion neu grwpiau ar sail eu cyfeiriadedd rhywiol wedi'u hadnabod yn ystod yr asesiad hwn.
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	**Niwtral**	Nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol a fyddai'n effeithio'n anghymesur ar unigolion neu grwpiau ar sail eu crefydd neu gred wedi'u nhadnabod yn ystod yr asesiad hwn.
Ailbennu rhywedd	**Niwtral**	Nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol a fyddai'n effeithio'n anghymesur ar unigolion neu grwpiau ar sail eu hailbennu rhywedd wedi'u hadnabod yn ystod yr asesiad hwn.
Beichiogrwydd a mamolaeth	**Niwtral**	Nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol a fyddai'n effeithio'n anghymesur ar unigolion neu grwpiau ar sail eu beichiogrwydd neu gyfnod mamolaeth wedi'u hadnabod yn ystod yr asesiad hwn.
Priodas a phartneriaeth sifil	**Niwtral**	Nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol a fyddai'n effeithio'n anghymesur ar unigolion neu grwpiau ar sail eu statws priodasol neu bartneriaeth sifil wedi'u hadnabod yn ystod yr asesiad hwn.
Yr Iaith Gymraeg	**Cadarnhaol**	<u>Effeithiau Uniongyrchol</u>: Mae datblygiad y Gwerthusiadau a Chynlluniau Rheoli wedi dilyn yr un broses hirsefydlog sydd eisoes ar waith o fewn yr Awdurdod, sy'n cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus llawn a chraffu gan Aelodau'r Awdurdod. Mae hon yn broses gwbl ddwyieithog, gyda'r holl ohebiaeth a dogfennau ar gael yn Gymraeg a Saesneg, wedi'u gosod yn union yr un maint a chynllun nad yw'n ffafrio nac yn gwneud y naill iaith na'r llall yn fwy amlwg nag un arall. Mae hyn yn sicrhau bod y broses yn cydymffurfio'n llawn â Pholisi Iaith Gymraeg yr Awdurdod ac yn adlewyrchu ethos cyffredinol yr Awdurdod.

		Nid oes effaith uniongyrchol felly wedi ei adnabod ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth ystyried ac ymateb i'r ymgynghoriad. Unwaith y bydd wedi'i rhoi ar waith, bydd y broses ar gyfer cyflwyno cais cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig yn dilyn y broses ymgeisio gyfredol hirsefydlog o fewn yr Awdurdod. Mae hyn eisoes yn sicrhau bod yr holl ffurflenni cais a nodiadau canllaw (papur ac electronig) ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda'r ddwy iaith yn cael eu defnyddio yn union yr un fath h.y. yn defnyddio'r un ffont, maint a diwyg. Gellir cyflwyno'r holl broses cais cynllunio o ran dogfennau ysgrifenedig yn gyfan gwbl yn y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys gohebiaeth ysgrifenedig neu electronig gyda'r Swyddog Cynllunio, Technegwyr Cynllunio a staff eraill y gwasanaeth cynllunio, heb unrhyw oedi ychwanegol wrth ymateb. Oherwydd y nifer presennol o siaradwyr Cymraeg rhugl yng ngwasanaeth cynllunio'r Awdurdod, bydd bob amser yn bosibl cael trafodaeth lafar ynglŷn â chais cynllunio trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, oherwydd y rhesymau uchod, nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol newydd neu ychwanegol wedi'u hadnabod ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heblaw am y camau cadarnhaol presennol sydd ar waith gan yr Awdurdod sy'n rhan annatod o'r broses gynllunio. <u>Effeithiau Anuniongyrchol</u>: Bydd hyfforddi ac uwchsgilio crefftwyr lleol ar gyfer y gwaith hwn fel yr amlinellir o dan y pennawd 'Oed' uchod o fudd anuniongyrchol i'r Gymraeg. Mae hyn oherwydd bod pobl leol Gymraeg eu hiaith yn gallu sicrhau cyflogaeth fedrus dda yn lleol a fydd yn eu cynorthwyo i aros yn eu cymunedau. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol a fydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yn anuniongyrchol. Bydd yr effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol hyn yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth â chyrff a rhanddeiliaid allweddol eraill yn lleol er mwyn sicrhau y gellir darparu cyfleoedd hyfforddi ac uwchsgilio ac mewn modd amserol. Mae hwn yn gyfle i wneud gwahaniaeth cadarnhaol y dylid ei ddatblygu. Byddai peidio â gwneud hynny yn golygu gorfod dod â chontractwyr o'r tu allan i'r ardal. Yn ogystal, gydag unrhyw gynlluniau grant y gellir eu datblygu yn y dyfodol i'r cymunedau wella eu

		Hardaloedd Cadwraeth, bydd amodau penodol yn cael eu gosod fel rhan o dderbyn y grant yn ymwneud â'r Gymraeg. Er enghraifft, bydd angen i unrhyw waith cymunedol cyhoeddus fod yn ddwyieithog a bydd angen achub ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg trwy arwyddion, hyrwyddiadau a digwyddiadau dwyieithog.
Anfantais Economaidd-Gymdeithasol	**Uniongyrchol: Niwtral** **Anuniongyrchol: Cadarnhaol**	<u>Effeithiau Uniongyrchol</u>: Oherwydd eu nodweddion arbennig a'u hadeiladau traddodiadol hardd, mae'r Ardaloedd Cadwraeth yn denu mwy o berchnogion ail gartrefi, llety gwyliau a phobl sy'n symud i'r ardal i ymddeol. Un canlyniad i hyn yw'r cynnydd ym mhrisiau tai mewn Ardaloedd Cadwraeth a materion fforddiadwyedd i brynwyr tro cyntaf. Er enghraifft, mae cymarebau fforddiadwyedd ar gyfer Y Bala yn 8.4:1, Aberdyfi yn 8.3:1, Harlech yn 9.2:1, Dolgellau 9.8:1 a Dolbenmaen yn 10.5:1. At ddiben yr asesiad hwn; fel egwyddor gyffredinol gellir dod i'r casgliad nad yw perchnogion tai mewn Ardaloedd Cadwraeth yn dod o deuluoedd incwm is a fyddai'n cael trafferth gyda'r costau cynnal a chadw ychwanegol a'r costau ôl-ffitio ar gyfer diogelu eu cartrefi yn y dyfodol rhag newid yn yr hinsawdd. Nid yw hynny'n golygu nad oes unrhyw unigolion a theuluoedd o grwpiau incwm is y byddai'r Cynlluniau Rheoli hyn yn effeithio arnynt; ond yn gyffredinol gellir dod i'r casgliad na fyddai mesurau o'r fath yn cael effaith anghymesur ar deuluoedd difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol. Gan nad yw'r cynigion hyn yn cyfyngu ar ddatblygiad mewn Ardaloedd Cadwraeth nac yn gosod gofynion newydd ac ychwanegol ar aelwydydd, nid oes unrhyw effaith uniongyrchol wedi'i adnabod. Prif ddiben y gwaith hwn yw cynorthwyo a darparu arweiniad, ac felly mae i'w groesawu'n gyffredinol gan ddeiliaid tai. <u>Effeithiau Anuniongyrchol</u>: Gweler gwybodaeth fanwl o dan y penawdau 'Oed' a 'Iaith Gymraeg' uchod sy'n amlinellu'r manteision economaidd i'r unigolyn trwy swyddi lleol medrus sy'n talu'n dda a'r manteision economaidd lleol cysylltiedig i gymunedau Eryri.

Hawliau Dynol	**Niwtral**	Ar ôl ystyried pob un o'r 14 Erthygl yn Neddf Hawliau Dynol 1998, sy'n nodi'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol y mae gan bawb yn y DU hawl iddynt; ni nodwyd unrhyw droseddau uniongyrchol nac anuniongyrchol yn sgil cyflwyno Cynlluniau Rheoli ar gyfer pob un o'r Ardaloedd Cadwraeth. Mae'n bwysig nodi nad yw **Erthygl 8** yn berthnasol, gan fod Erthygl 8 yn bennaf yn hawl i fwynhau eich cartref presennol mewn heddwch, ac felly nid yw'r cynnig hwn yn effeithio arno. Mae hyn yn golygu na ddylai awdurdodau cyhoeddus eich atal rhag mynd i mewn neu fyw yn eich cartref heb reswm da iawn, ac ni ddylent fynd i mewn heb eich caniatâd. Mae hyn yn berthnasol p'un a ydych yn berchen ar eich cartref ai peidio. Mae **Erthygl 14** yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i'r holl hawliau a rhyddid a nodir yn y Ddeddf Hawliau Dynol gael eu diogelu a'u cymhwyso heb wahaniaethu; ac felly nid yw'n berthnasol yn yr achos hwn, gan na fydd cyflwyno'r Cynlluniau Rheoli ar gyfer pob un o'r Ardaloedd Cadwraeth yn amharu ar unrhyw un o'r hawliau dynol a nodir yn y Ddeddf.

3.2 Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da yn ei weithgareddau o ran y nodweddion canlynol – oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, ailbennu rhywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Rhaid i'r Awdurdod roi sylw dyledus i'r ffordd y mae unrhyw newid yn effeithio ar y dyletswyddau hyn.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	**A yw'n cael effaith?***	**Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?**
Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Na	Prif nod y Gwerthusiadau a'r Cynlluniau Rheoli yw gofalu am ddyfodol hirdymor yr Ardaloedd Cadwraeth a'u diogelu rhag effeithiau Newid Hinsawdd. Bydd hyn yn ei dro o fudd cadarnhaol i ddeiliaid tai a thenantiaid yr eiddo o fewn Ardaloedd Cadwraeth. Ni fydd unrhyw effaith ar, nac yn achosi unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu nac erledigaeth.
Hyrwyddo cyfle cyfartal	Ydyw	Trwy uwchsgilio a hyfforddi pobl leol i fod yn gontractwyr cymwys iawn i wneud y gwaith ôl-osod ar adeiladau traddodiadol a rhestredig, bydd yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn anuniongyrchol yn y gymuned leol.
Annog perthnasau da	Na	Cyfyngedig yw'r sgôp ar gyfer hyrwyddo ac annog perthnasoedd da yn uniongyrchol trwy ddefnyddio'r Gwerthusiadau hyn a'r Cynlluniau Rheoli cysylltiedig.

3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Mesur Safonau'r Gymraeg (Cymru) 2011, i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a'ch bod yn achub ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Gwnaethpwyd y broses o baratoi a chymeradwyo'r Gwerthusiadau a'r Cynlluniau Rheoli yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

Cyfeiriwch at y pennawd 'Iaith Gymraeg' o dan 3.1 uchod am fanylion llawn.

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi / arfer ei gael ar y Gymraeg iaith?

Yn dilyn y broses ymgysylltu, bydd rhai mân newidiadau yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg, ei gwneud yn weladwy a'i phwysleisio fel rhan bwysig o dreftadaeth ddiwylliannol yr Ardaloedd Cadwraeth. Manylir ar y rhain yn llawn yn yr Adroddiad Ymgynghori.

3.5 Sut y mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer bod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na dim ond gwella canlyniadau i bawb)?

Fel y nodwyd yn 3.2 uchod, mae posibilrwydd o fynd i'r afael â rhywfaint o anfantais economaidd-gymdeithasol yn anuniongyrchol drwy gyfleoedd cyflogaeth well. Fodd bynnag, mae'r cynigion hyn yn gyfyngedig o ran eu gallu i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r anghydraddoldebau sy'n codi drwy anfantais economaidd-gymdeithasol, gan nad ydynt yn gynigion strategol.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghymesur o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Amherthnasol gan nad yw'n fater strategol.

4) Dadansoddi'r Canlyniadau

4.1 A yw'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, gadarnhaol ar unrhyw un o'r uchod a beth yw'r rheswm am hyn?

Er bod rhai effeithiau cadarnhaol wedi'u nodi uchod, yn gyffredinol nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol sylweddol o fabwysiadu'r Gwerthusiadau hyn a gweithredu'r Cynlluniau Rheoli cysylltiedig.

4.2 A yw'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol negyddol ar unrhyw un o'r uchod a beth yw'r rheswm am hyn?

Nid yw'r Asesiad (gweler rhan 3 uchod) wedi adnabod unrhyw effeithiau negyddol posibl a allai ddeillio o fabwysiadu'r Gwerthusiadau hyn a gweithredu'r Cynlluniau Rheoli cysylltiedig.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	**X**
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau andwyol yn rhy fawr	
Parhau gyda'r polisi gan y gellir cyfiawnhau unrhyw effaith andwyol	□
Dim gweithredu pellach ar hyn o bryd oherwydd ei bod yn rhy fuan i benderfynu, neu nid oes digon o dystiolaeth	

4.4 Os byddwch yn parhau â'r prosiect, pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Amherthnasol, gan nad oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi.

4.5 Os nad ydych yn cymryd unrhyw gamau pellach i ddileu neu leihau'r effeithiau negyddol, eglurwch pam yma.

Gweler yr ymateb i 4.4 uchod.

5) Monitro

5.1 Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Bydd effaith ac effeithiolrwydd Asesiadau Ardaloedd Cadwraeth, Cynlluniau Rheoli a dogfennau cysylltiedig yn cael eu monitro drwy: • yr Adroddiad Monitro Blynyddol; a • ystyriaeth barhaus o geisiadau cynllunio perthnasol wrth iddynt gael eu hasesu.